# Y Cod Ymddygiad

## DATGAN BUDDIANT – CWESTIYNAU I'W HOLI I CHI'CH HUN

(Enghreifftiol yn unig yw'r siartiau hyn ac nid ydynt yn bendant)
(Os oes amheuon gennych, ymgynghorwch â'r Swyddog Monitro)

**CAM 1**: A yw'r Cod yn berthnasol yn yr achos hwn?

**A ydych:**

- yn cynnal busnes y Cyngor neu'n mynychu un o gyfarfodydd y Cyngor?
- yn gweithredu yn rhinwedd eich swyddogaeth fel aelod?
- yn gweithredu fel cynrychiolydd y Cyngor?
- yn gweithredu fel y sawl a benodwyd neu a enwebwyd gan y Cyngor i fod ar unrhyw gorff arall sydd heb ei god ymddygiad ei hun?

**YDW** → Mae'r Cod **yn** berthnasol. Ewch at Gam 2.

**NAC YDW** → **Nid** yw'r Cod yn berthnasol. Nid oes angen cymryd mwy o gamau gweithredu.

**CAM 2**: A oes buddiant ***personol*** gennych?

Buddlannau Personol

**Paragraff 10 (2) (a)**

**A yw'r busnes yn cyfeirio at y canlynol, neu'n debygol o effeithio ar y canlynol:**

- eich cyflogaeth neu'ch busnes?
- eich cyflogwr, ffyrm neu'ch cwmni?
- person a wnaeth daliad i chi parthed eith ethol neu'ch treuliau?
- cwmni yng Ngheredigion yr ydych yn berchen ar gyfrandaliadadau ynddo?
- contract am nwyddau, gwasanaethau neu waith a wnaed rhwng y cyngor a chithau, eich ffyrm, eich cwmni neu gwmni yng Ngheredigion yr ydych yn berchen ar gyfrandaliadau ynddo?
- unrhyw dir yng Ngheredigion y mae buddiant llesiannol gennych ynddo?
- unrhyw dir lle mai'r cyngor yw'r landlord ac mai'ch ffyrm, cwmni, neu gwmni yng Ngheredigion yr ydych yn berchen ar gyfranddaliadau ynddo yw'r tenant?
- corff y'ch etholwyd neu'ch penodwyd iddo gan y cyngor?
- unrhyw awdurdod cyhoeddus, cwmni, elusen, grŵp lobïo, undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol neu gymdeithas neu glwb preifat sy'n gweithredu yng Ngheredigion lle y mae gennych aelodaeth neu lle y daliwch swydd reoli cyffredinol?
- unrhyw dir yng Ngheredigion lle y mae gennych drwydded i'w feddiannu am 28 diwrnod neu fwy?

**NEU**

**Paragraff 10 (2) (b)**

**A ellid ystyried yn rhesymol bod penerfyniad yn efeithio (I raddau helaethach na'r rhan fwyaf o drigolion y ward) ar:**

- eich lles neu'ch sefyllfa ariannol
- lles neu sefyllfa ariannol unrhyw berson yr ydych yn cydfyw ag ef neu y mae cysylltiad personol agos gennych ag ef?
- cyflogaeth/busnes, cyflogwr, ffyrm neu gwmni unrhyw berson yr ydych yn cydfyw ag ef neu y mae cysylltiad personol agos gennych ag ef?
- unrhyw gwmni y mae unrhyw berson yr ydych yn cydfyw ag ef neu y mae cysylltiad personol agos gennych ag ef yn berchen ar gyfranddaliadau ynddo?
- unrhyw awdurdod cyhoeddus, cwmni, elusen, grŵp lobïo, undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol neu gymdeithas neu glwb preifat sy'n gweithredu yng Ngheredigion lle bo unrhyw berson yr ydych yn cydfyw ag ef neu y mae cysylltiad personol agos gennych ag ef yn dal swydd reoli cyffredinol?

**Os mai YDY/GALLAI/GELLID** yw'ch ateb, mae buddiant personol gennych

Rhaid i chi:

1. **ddatgelu** eich buddiant personol
   - mewn cyfarfodydd
   - wrth wneud sylwadau ysgrifenedig, ac
   - wrth wneud sylwadau llafar (a rhaid i chi gadarnhau'ch buddiant yn ysgrifenedig cyn pen 14 diwrnod)
2. **rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'ch buddiant personol –** cwbwlhewch y ffurflen felen (*ar gael gan y Glercod neu'r Swyddog Monitro)*
3. **ystyriwch a oes gennych FUDDIANT SY'N RHAGFARNU** ac **ewch at Gam 3 (*dros y dudalen)***

**Os mai NA** yw'ch ateb, nid oes buddiant personol

Os yw'r busnes gerbron Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, ewch at Gam 3.

Fel arall, nid oes angen cymryd mwy o gamau gweithredu.

**CAM 3**: A oes gennych fuddiant ***sy'n rhagfarnu?***

Buddiannau sy'n Rhagfarnu

**Paragraff 12 (1)**

**A fyddai aelod o'r cyhoedd sy'n adnabod y ffeithiau persnasol yn ystyried yn rhesymol bod eich buddiant personol mor arwyddocaol nes bod hynny'n debygol o ragfarnu'ch barn am fuddiant y cyhoedd?**

**NEU** →

**Paragraff 13**

**A oes Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ystyried penderfyniad a wnaed neu gamau gweithredu a gymerwyd gan y Cabinet neu bwyllgor arall AC a oeddech yn aelod o'r Cabinet/Pwyllgor ac yn bresennol yr adeg pan wnaed y penderfyniad/cymerwyd y camau?**

**NA FYDDAI** / **NAC OES** ↓

NID oes buddiant sy'n rhagfarnu gennych. Rhaid I chi ddatgelu unrhyw fuddiant *personol,* ond mae hawl gennych gymryd rhan yn y busnes.

**BYDDAI** ↓

**Paragraff 12 (2)**

A yw'r mater yn disgyn o fewn un o'r eithriadau canlynol?

(a) Mae'r busnes yn cyfeirio at:

- awdurdod arall yr ydych yn aelod ohono
- awdurdod cyhoeddus arall lle y daliwch swydd reoli cyffredinol
- corf y'ch etholwyd neu y'ch penodwyd iddo gan y Cyngor
- eich swyddogaeth fel llywodraethwr ysgol nas penodwyd gan y cyngor (cyn belled ag y bo hynny yn peidio â chyfeirio at eich ysgol benodol)
- eich swyddogaeth fel aelod o Fwrdd iechyd lleol nas penodwyd gan y Cyngor

  **Ac nad** yw'n ymwneud â chymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd na chofrestriad

(b) Mae'r busnes yn cyfeirio at wahanol swyddogaethau'r Cyngor h.y. tai; prydau bwyd ysgolion, cludiant a threuliau teithio; tâl salwch statudol; lwfansau taliadau a phensiynau, yn amodol ar amodau penodol (gweler para 12(2)(b) y Cod)

(c) Mae'r busnes yn ymwneud â'ch swyddogaeth fel Cynghorydd Cymuned parthed cymorth ariannol a wnaed gan eich cyngor cymuned i sefydliadau cymunedol neu wirfoddol hyd at £500 fan bellaf.

**YDY, mae un o'r eithriadau yn berthnasol** ↓

**NID** ystyrir bod buddiant *sy'n rhagfarnu* gennych. **Rhaid I chi ddatgelu eich buddiant *personol,*** ond mae hawl gennych gymryd rhan yn y busnes.

**NAC OES, nid oes dim un o'r eithriadau yn berthnasol** / **OES** ↓

**Mae gennych fuddiant sy'n RHAGFARNU.**

**Rhaid i chi:**

- Ddatgelu'ch buddiant
- Gadael y cyfarfod
- Peidio ag ymgymryd â swyddogaethau gweithredol
- Peidio â dylanwadu ar benderfyniadau
- Peidio â gwneud sylwadau ysgrifenedig
- Peidio â gwneud sylwadau llafar

**ONI BAI**

- Bod y Pwyllgor Moeseg & Safonau wedi caniatáu gollyngiad i chi
- Bod hawl gan y cyhoedd wneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth
- Bod yn rhaid i chi fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu